Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

LLYFRAUaRHAGOR BOOKS&BEYOND

# Lanlwytho Traethawd Ymchwil Electronig i Gadwrfa Ymchwil y Drindod Dewi Sant

Fersiwn 3

Mai 2019

**Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil sy'n cyflwyno eu traethawd ymchwil, sydd wedi'i gwblhau a'i dderbyn, i Gadwrfa Ymchwil y Brifysgol (Eprints).**

Ni ddylid lanlwytho traethawd ymchwil tan ar ôl cael cadarnhad ei fod wedi'i dderbyn. Peidiwch â cheisio lanlwytho'ch traethawd ymchwil i'r gadwrfa tan ar ôl i chi gael cadarnhad gan y Brifysgol y gellir symud ymlaen.

Lanlwythwch fersiwn terfynol, derbyniedig eich traethawd ymchwil, ar ffurf ffeil PDF. Rhaid mai'ch gwaith gwreiddiol eich hun yw'ch traethawd ymchwil, a rhaid i chi gael caniatâd eglur i gynnwys delweddau neu ddeunydd arall nad ydych yn berchen ar yr hawlfraint amdanynt yn eich traethawd ymchwil, neu dynnu deunydd o'r fath o'r fersiwn rydych yn ei lanlwytho. Sylwer drwy lofnodi'r ffurflen datganiad efallai y byddwch yn atebol yn bersonol am unrhyw achos o dorri hawlfraint yn sgil cynnwys eiddo deallusol awduron neu ddeiliaid hawlfraint eraill yn eich traethawd ymchwil cyhoeddedig.


I gael cymorth pellach gyda'r broses lanlwytho, cysylltwch â [repository@uwtsd.ac.uk](mailto:repository@uwtsd.ac.uk)

1. Mewngofnodi i Eprints
   - Ewch i [http://repository.uwtsd.ac.uk/](http://repository.uwtsd.ac.uk/)
   - Cliciwch ar **Login**





   - Teipiwch eich manylion mewngofnodi a'ch cyfrinair ar gyfer y Drindod Dewi Sant, a chliciwch y botwm **Login**


2. Bydd y dudalen Groeso yn ymddangos
   - Cliciwch ar **Manage Deposits** a dewis **New item**





3. Dewiswch **Thesis** fel y Math o eitem a chlicio ar **Next**




4. Lanlwytho'ch traethawd ymchwil:
    - Cliciwch ar **Browse** i lanlwytho'ch ffeil
    - Dylai'ch traethawd ymchwil gael ei lanlwytho ar fformat PDF
    - Dylai enw ffeil y PDF fod ar y ffurf ganlynol: cyfenw, enw llawn (blwyddyn dderbyn) teitl.pdf




5. Pennu cytundeb trwydded:
    - Pan fyddwch wedi lanlwytho'ch traethawd ymchwil, ehangwch y tab **Show options** gan ddefnyddio'r symbol **+**




- Cwblhewch y manylion fel y'i nodir isod:



**Content** = Accepted version
**Type** = Text
**Visible to** = Anyone
**License** = Creative Commons attribution-Non-commercial – No derivative works 4.0
**Language** dewiswch iaith o'r gwymplen
Gellir nodi dyddiad yn yr adran **Embargo expiry date** dim ond os cytunwyd ar rwystro mynediad gyda'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, fel arall gadewch y blwch yn wag

- Cliciwch ar **Next**

6. Ychwanegu metadata i ddisgrifio'ch traethawd ymchwil:


**Title -** teipiwch deitl llawn eich traethawd ymchwil gyda phriflythyren ar y dechrau a llythrennau bach yn dilyn.
**Abstract** – teipiwch grynodeb o'ch traethawd ymchwil (200 i 500 o eiriau)
**Thesis type** - dewiswch o'r rhestr (e.e. Doctoral, Masters)
**Thesis name** - dewiswch eich cymhwyster o'r rhestr
**Creators** – nodwch eich enw llawn yn hytrach na'r blaenlythrennau er mwyn helpu wrth fynegeio a darganfod eich gwaith. Dylai hyn fod ar y fformat *Cyfenw, Enw cyntaf* e.e. *Bloggs, Joe*
Nodwch eich rhif Orcid yn y golofn **ORCID**. Mae ORCID yn darparu cod adnabod digidol parhaol sy'n gwahaniaethu rhyngoch chi a phob ymchwilydd arall a, thrwy gael ei integreiddio mewn llifoedd gwaith ymchwil allweddol megis cyflwyno llawysgrifau a cheisiadau am grant, mae'n cefnogi cysylltiadau awtomatig rhyngoch chi a'ch gweithgareddau proffesiynol gan sicrhau bod eich gwaith yn cael ei adnabod. Mae cofrestru'n cymryd 30 eiliad yn http://orcid.org/
**Corporate authors** – gadewch hyn yn wag
**Contributors** – gadewch hyn yn wag
**Divisions** – Dewiswch **Theses and Dissertations: Doctoral or Masters**
**Dates** – Y flwyddyn, y Mis a'r Diwrnod y cafodd y traethawd ymchwil ei dderbyn
**Publication details** – Unpublished
**Institution** – nodwch: University of Wales Trinity Saint David
**Department** – nodwch enw'r Gyfadran a'r Ysgol
e.e. Faculty of Art and Design: School of Visual Communications
**Number of pages /leaves** – nodwch nifer y tudalennau / dalennau yn eich traethawd ymchwil
**Contact email address** – nodwch eich cyfeiriad e-bost yma er mwyn i ni allu cysylltu â chi os bydd unrhyw ymholiadau
**Uncontrolled keywords** – nodwch nifer o allweddeiriau gyda choma rhwng pob un, e.e. *television, religion, politics, China etc.*
**Additional Information** – nodwch unrhyw wybodaeth bellach a fydd yn ein helpu i adolygu'ch traethawd ymchwil

- Gadewch bob maes arall yn wag

- Cliciwch ar **Next**

7. Dewiswch bwnc:

    - Defnyddiwch y botymau **+** i ddewis pwnc o'r rhestr o benawdau. Mae hon yn system ddosbarthu safonol. Bydd staff y Gadwrfa yn adolygu'r dosbarth pwnc ac efallai yn ei newid er cysondeb.




    - Cliciwch ar **Next**

8. Gwiriwch y ffurflen ac adolygu'r adnau. Pan fyddwch yn hapus, cliciwch **Deposit Item Now** i adneuo'ch traethawd ymchwil i'w adolygu a'i gyhoeddi. Bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn adolygu eich adnau ac yn trefnu bod y testun llawn ar gael yn rhad ac am ddim. Os oes problem gyda'r adnau y mae angen ei adolygu cewch wybod drwy e-bost.